

Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 17eg o Fehefin 2019 am 7:10pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Alan H. Jones, Bethan Lawton, Griffith Evan Thomas

- Ymddiheuriadau: Cynghorydd Simon Jones
- Datgan diddordeb: Ni fu i'r un Cynghorydd ddatgan buddiant
- Clwb Ieuenctid Bryncrug:

Croesawyd swyddogion yr Urdd i'r cyfarfod, sef Dylan Elis, Elin Siriol a Lleucu Gwenllian.

Derbyniwyd adroddiad llafar gan yr Urdd ar sut yr oedd y clwb ieuenctid wedi rhedeg, y nifer mynychodd y clwb a'r gweithgareddau. Cafwyd wybod bod llai wedi mynychu'r clwb ar ôl i'r newid amser y clociau a bod cyfnod arholiadau hefyd yn golygu bod llai yn mynychu. Hefyd, adroddwyd bod ychydig o broblemau wedi codi yn y cychwyn, megis y Ganolfan ar gau a diffyg offer ar gyfer gweithgareddau.

Nodwyd bod cwpwrdd newydd wedi ei adeiladu ar gyfer y cadw offer y clwb a bod yr Urdd yn gweithredu polisi gwahardd am unrhyw ymddygiad afreolus.

PENDERFYNIAD: I ddiolch i'r Urdd am gyflenwi'r gwasanaeth ar ran y Cyngor.
I estyn y cytundeb am flwyddyn ychwanegol, gan gychwyn y clwb ym mis Medi a rhedeg tan ddiwedd mis Mawrth 2020.
Y Clwb i wneud ymdrech i godi arian tuag at achos da, gyda'r Urdd i sicrhau bod ambell lun yn cael ei dynnu er mwyn denu cyhoeddusrwydd i'r gweithgareddau a'r clwb yn y wasg
Y clwb i gychwyn ar 10fed o Fedi, gyda'r ffi mynychu yn aros yr un fath, ac yn cael ei gadw gan y clwb i dalu am weithgareddau/offer
Y clwb i barhau i fod yn 90 munud, ond gyda hyblygrwydd i fod yn ddwy awr ar gyfer gweithgareddau fel gwyllo ffilm

4. Derbyn cofnodion 20 Mai 2019:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir, gyda'r Cynghorydd Bethan Lawton yn cynnig a'r Cynghorydd Arwel Pierce yn eilio.

5. Derbyn cofnodion 3 Mehefin 2019:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir, gyda'r Cynghorydd Arwel Pierce yn cynnig a'r Cynghorydd Bethan Lawton yn eilio.

6. Cyfrifon i'w talu:

B Gwilym	Cyflog	101660	£366.74
Cyllid a Thollau	Yswiriant Gwladol	101661	£91.60
Cyngor Gwynedd	Ysbwriel/Ailgylchu	101662	£100.00
Hefin Pugh	Torri gwrychoedd	101663	£54.00

PENDERFYNIAD: I dalu'r anfonebau.

7. Datganiadau Cyfrifyddu 2018/19:

Bu i'r Cyngor edrych yn fanwl ar gynnwys adroddiad yr Archwiliwr Mewnol a manylion y cyfrifon, gan gymharu'r gwariant yn erbyn yr hyn yr oedd yn y gyllideb am y flwyddyn.

PENDERFYNIAD: I gymeradwyo Datganiadau Cyfrifyddu 2018/19.
Y Clerc i sicrhau bod cofnodion y Cyngor o ddechrau 2019 i fyny ar wefan y Cyngor

Nid oedd y Cyngor yn derbyn sylw'r Archwilydd Mewnol bod diffyg cofnod o benderfyniad aelodau unigol i dderbyn neu wrthod cydnabyddiaeth ariannol, gan bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru, drwy sicrhau bod Cyngorwyr yn datgan yn ysgrifenedig os ydynt yn gwrthod cydnabyddiaeth, a gan bod cydnabyddiaeth yn cael ei dalu yn awtomatig i Gynghorwyr, nid ydynt yn ôl y Panel Cydnabyddiaeth i wneud cais ysgrifenedig am yr arian.
I gynnwys eitem ar agenda nesaf y Cyngor er mwyn adolygu'r gofrestr asedau.

8. Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 a Rhan 2) 2018/19:

PENDERFYNIAD: I gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 a Rhan 2) 2018/19.

9. Pympiau Dŵr Hanesyddol - Ffensio:

Adroddwyd bod y Cadeirydd wedi cael cyfarfod safle gyda'r contractwr y Cyngor, sef ger y pwmp codi dwr ar Ffordd y Felin.

PENDERFYNIAD: I osod dau bolyn a rheilen er mwyn marcio terfyn, gyda'r Clerc i gysylltu â Jones & Jones. I ysgrifennu at gymydog sydd drws nesaf i'r pwmp codi dŵr er mwyn ei hysbysu o anhwylustod y mae'r Cyngor yn ei brofi wrth ceisio cynnal y tir o amgylch y pwmp.

10. Liz Saville Roberts AS - Sesiwn Wybodaeth - Defnyddio'r Swyddfa Post i fancio:

Derbyniwyd boster gan yr Aelod Seneddol oedd yn cynnwys manylion digwyddiad sydd wedi ei drefnu ar y cyd a'r Swyddfa Post er mwyn hyrwyddo'r gwasanaethau bancio y mae'r Swyddfa Post yn ei gynnig i gwsmeriaid banciau, fel Barclays sydd newydd gau yn Nhywyn.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth gan yr Aelod Seneddol. Y Clerc i osod copi o'r poster ar yr hysbysfwrdd. I ddiolch i'r Aelod Seneddol am yr ymdrech i gefnogi unigolion i barhau i derbyn gwasanaethau bancio yn eu cymuned, gan nad yw pawb yn berchen ar gar ac yn medru teithio i dref arall.

11. Cyngor Gwynedd - Toiled Cyhoeddus:

Derbyniwyd neges e-bost gan Gyngor Gwynedd yn ymddiheuro am safon y toiledau, gan ddweud na ddylai'r toiledau wedi cyrraedd y fath safon. Cafwyd wybod y byddai Cyngor Gwynedd yn gosod offer newydd fel biniau a sicrhau bod nwyddau fel sebon ar gael, ond nid yw Cyngor Gwynedd mewn sefyllfa i drawsnewid y toiledau fel rhan o gynllun tymor hir, yn unol a dymuniad Cyngor Cymuned Brynchrug.

PENDERFYNIAD: I anfon llythyr at Gyngor Gwynedd yn cydnabod bod Cyngor Cymuned Brynchrug mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd a bod Cyngor Cymuned Brynchrug yn siomedig nad yw Cyngor Gwynedd wedi cynnal arolwg o'r toiledau cyn eu hail-agor, a nad yw'r pethau sylfaenol yn cael eu gwneud.

12. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Ymgynghoriad Cyhoeddus - Canllaw Cynllunio Atodol Drafft - CCA 8 - Llety Ymwelwyr:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

13. Cyfoeth Naturiol Cymru - Afon Dysynni:

Derbyniwyd llythyr gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn cyfeirio y cyngor at yr Ordanance Survey, gan ddweud nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am osod terfyn yr afon a llinell y llanw.

PENDERFYNIAD: I ysgrifennu at yr Ordanance Survey. I ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gofyn pwy sydd yn gyfrifol am benderfynu a gosod pa dir sydd ar gorlifdir.

14. Cae Chwarae - Adroddiad:

Rhodddwyd adroddiad llafar o gyfarfod safle y cynhaliwyd yn y cae chwarae gyda Chlwb Pêl-droed Tywyn a Brynchrug am 6yh. Nu i'r cyfarfod safle drafod lleoliad ar gyfer gosod seddi o dan do ar gyfer gwylwyr, a llain concriid ar hyd ochr y cae.

PENDERFYNIAD:

I ganiatáu i Glwb pêl-droed Tywyn a Brynchrug i osod y seddi o dan do y tu ôl i'r pyst ar ochr y cae wrth y cyn randiroedd, i ganiatáu i'r llain concriid cael ei osod ar hyd ochr y cae ble leoli'r y Pafiliwn ac y tu ôl i'r pyst ble bydd y seddi dan do.

I anfon llythyr at Glwb Pêl-droed Tywyn a Brynchrug er mwyn nodi siom y Cyngor bod y tu mewn i'r Pafiliwn yn fudr, gyda'r sinc yn toiled y merched ym marn y Cyngor heb ei lanhau ers blwyddyn. I nodi bod y Cyngor yn sylweddoli nad yw safon y Pafiliwn yn dda, o safbwynt paent ayyb ond bod angen ymdrech gan y clwb drwy ei lanhau, mopio'r llawr yn yr ystafelloedd newid, glanhau sinc a toiledau.

I gael dyfynbris am baentio tu mewn i'r toiledau gan Andy Alexander a Wayne Green, gyda'r peintwyr i gynghori ar baent addas.

I gysylltu gyda Jones & Jones er mwyn clirio eiddew o do y Pafiliwn a lledaenu chwynladdwr y tu ôl i'r Pafiliwn.

I ofyn wrth Barry Owen atgyweirio y fascia uwchben y sied, ochr toiled merched ar y Pafiliwn. Ysgrifennu at y Clwb Pêl-droed er mwyn gofyn iddynt edrych ar y pyst a'r rheiliau, yn benodol y rhai y tu ôl i seddi y swyddogion a'r chwaraewyr.

I ysgrifennu at y contractwr torri gwair er mwyn gofyn iddo beidio torri gwair ger y pyst newydd sydd wedi eu gosod gan y clwb pêl-droed er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu difrodi gan y peiriannau.

15. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd bod gwair ar ochr ffyrdd yn hir a bod yn berygl i yrwyr gan nad oeddynt yn medru gweld e.e. wrth dynnu allan o gyffordd.

PENDERFYNIAD:

I dderbyn y wybodaeth

16. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Nid oedd mater brys i'w drafod.

PENDERFYNIAD:

I dderbyn y wybodaeth.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:40pm

Llofnod y Cadeirydd